**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADDYSG, IEUENCTID A DIWYLLIANT**
**1 CHWEFROR 2024**

Cofnodion cyfarfod hybrid Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg, Ieuenctid a Diwylliant Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd ddydd Iau, 1 Chwefror 2024.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Teresa Carberry (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Gladys Healey, Dave Mackie, Gina Maddison, Andrew Parkhurst, Carolyn Preece, David Richardson, Jason Shallcross ac Arnold Woolley

**AELODAU CYFETHOLEDIG:** Lisa Allen a Lynne Bartlett

**DIRPRWYON:**
Y Cynghorydd Mel Buckley (ar ran y Cynghorydd Paul Cunningham), y Cynghorydd Andy Hughes (ar ran y Cynghorydd Bill Crease) a'r Cynghorydd Ted Palmer (ar ran y Cynghorydd Ryan McKeown)

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Roedd y Cynghorydd Helen Brown yn bresennol fel arsylwr.

**YMDDIHEURIADAU:**
Vicky Barlow (Uwch Reolwr – Gwella Ysgolion)

**CYFRANWYR:**
Y Cynghorydd Mared Eastwood (Aelod Cabinet Addysg, y Gymraeg, Diwylliant a Hamdden); y Cynghorydd Dave Hughes (Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Gwasanaethau Stryd a'r Strategaeth Drafnidiaeth Ranbarthol); y Cynghorydd Paul Johnson (Aelod Cabinet Cyllid, Cynhwysiant, Cymunedau Cryf yn cynnwys Gwerth Cymdeithasol a Chaffael); Y Prif Weithredwr; Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid); Rheolwr Cyllid Corfforaethol; Ymgynghorydd ar gyfer Dysgu Ôl-16 ac Oedolion ac Uwch Reolwr, Cyfiawnder Ieuenctid a Sorted Sir y Fflint

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu a Swyddogion y Gwasanaethau Democrataidd

## 39 DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Datganodd y Cynghorydd Andrew Parkhurst gysylltiad personol ag eitem rhif 5 ar y rhaglen cyllideb cronfa'r Cyngor oherwydd bod ei wraig yn gweithio mewn ysgol gynradd leol.

Datganodd y Cynghorydd Mel Buckley gysylltiad personol ag eitem rhif 5 ar y rhaglen cyllideb cronfa'r Cyngor oherwydd bod ei chwaer yn gweithio mewn ysgol gynradd yn Sir y Fflint.

## 40. COFNODION

30 Tachwedd 2023

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Tachwedd 2023 i'w cymeradwyo.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Dave Mackie ar Adolygiad Ardal Saltney Brychdyn, cadarnhaodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet a'r Pwyllgor Craffu'n fuan. Eglurwyd bod hyn yn cysylltu â gwaith y rhaglen gyfalaf yn y dyfodol.

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod, fel y'u cynigiwyd a'u heiliwyd gan y Cynghorwyr Carolyn Preece a Gladys Healey.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Tachwedd 2023 a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi fel cofnod cywir.

## 41 RHAGLEN WAITH AC OLRHAIN CAMAU GWEITHREDU

Wrth gyflwyno'r adroddiad, amlinellodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu yr eitemau sydd wedi'u rhestru ar y Rhaglen Waith a oedd ynghlwm yn Atodiad 1. Nid oedd unrhyw newidiadau arfaethedig i'r Rhaglen Waith.

Esboniwyd, yn dilyn y cyfarfod diwethaf, bod amryw o newidiadau wedi cael eu gwneud i'r adroddiad Olrhain Camau Gweithredu o amgylch materion yn ymwneud â recriwtio a chadw staff, y diwygiad i'r eitemau Anghenion Dysgu Ychwanegol a Mynd i'r Afael ag Effaith Anghydraddoldeb ar Ddeilliannau Addysg. Roedd yr eitem ar Ddemograffeg wedi'i chynnwys fel rhan o'r Adroddiad Blynyddol ar Falansau Ysgol ac roedd y pwrpas yn y Rhaglen Waith wedi cael ei ddiwygio i adlewyrchu hyn. Roedd adroddiad hefyd wedi'i gynnwys yn y Rhaglen Waith ar y Fframwaith Arolygu ar gyfer Ysgolion a fyddai'n cynnwys y fenter Cofia Ceri.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog y byddai'r Rhaglen Waith yn cael ei diweddaru pan fyddai'r adroddiad o'r Ymgynghoriad Ardal Saltney / Brychdyn yn cael ei gyflwyno yng nghylch y Cabinet.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Gladys Healey ynglŷn â Theatr Clwyd, cytunodd y Prif Swyddog i gynnwys diweddariad blynyddol yn y Rhaglen Waith i nodi cyfranogiad pobl ifanc yn y gweithgareddau ac i gyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf am Wasanaeth Cerdd Sir y Fflint.

Cafodd yr argymhellion, fel y'u hamlinellwyd yn yr adroddiad, eu cynnig gan y Cynghorydd Carolyn Preece a'u heilio gan y Cynghorydd Ted Palmer.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi'r Rhaglen Waith;
(b) Rhoi awdurdod i'r Hwylusydd, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor, i amrywio'r Rhaglen Waith rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen; a
(c) Nodi'r cynnydd a wnaed wrth gyflawni'r camau gweithredu nad oedd wedi'u cwblhau.

## 42 CYLLIDEB CRONFA’R CYNGOR 2024/25

Wrth gyflwyno’r adroddiad, eglurodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol y byddai hwn yn cael ei gyflwyno i bob Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar gyfer ystyriaeth. Roedd diweddariadau rheolaidd ar gyllideb heriol y Cyngor ar gyfer 2024/25 wedi cael eu darparu i Aelodau ers yr haf diwethaf ac fe gyhoeddwyd setliad Llywodraeth Cymru ar 20 Rhagfyr. Myfyriodd ar gynnydd siomedig y Cyngor o 2.2% o’i gymharu â chyfartaledd Cymru o 3.1% a’r crynodeb o’r prif benawdau a adroddwyd i’r Cabinet ar 16 Ionawr a oedd yn cynnwys y bwlch o £12.946m a oedd yn weddill. O ganlyniad, gofynnwyd i bob portffolio ail-edrych ar ffyrdd posib i leihau cyllidebau neu ddileu pwysau costau er mwyn cyfrannu tuag at gau’r bwlch hwnnw. Roedd yr adroddiad yn darparu manylion am y cynigion ychwanegol ar gyfer y portffolio Addysg ac Ieuenctid a’r cynigion presennol ar gyfer Cyllidebau Dirprwyedig Ysgolion.

Gwnaeth y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) sylw ar y ddwy elfen yr oedd yn rhaid eu hystyried, cyllideb portffolio Addysg ac Ieuenctid a’r Cyllidebau Dirprwyedig Ysgolion, gyda phwynt 1.05 yn yr adroddiad yn darparu gwybodaeth am y gostyngiadau arfaethedig i’r gyllideb. Diolchodd i’r Uwch Reolwyr am y gwaith yr oeddent wedi’i wneud yn craffu ar bob llinell o’u cyllidebau gan ddweud nad oedd yn hawdd adnabod arbedion effeithlonrwydd tra’n gwarchod uniondeb y gwasanaeth ac yn galluogi’r portffolio i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol. Cyfeiriodd at y sgoriau COG ar gyfer y gwasanaethau hyn ac fe dynnodd sylw at y Gwasanaeth Ieuenctid a oedd â sgôr Oren.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan y Pwyllgor ar gynigion cyllideb ar gyfer y Portffolio Addysg ac Ieuenctid.

<u>Gostyngiadau i Gyllideb y Portffolio Addysg ac Ieuenctid</u>

Dywedodd y Cynghorydd Parkhurst ei fod yn credu, oherwydd yr anawsterau ariannol a achoswyd i’r Cyngor gan gyllideb Llywodraeth Cymru, y gofynnwyd i bob Portffolio ganfod arbedion o 7.5% er mwyn i Aelodau allu penderfynu pa rai o’r arbedion posibl hynny y gellid eu derbyn neu’u gwrthod ac y byddai gan yr Aelodau ddewis a’r gallu i wneud penderfyniad gwybodus. Dywedodd bod arbedion posibl o £303,000 wedi cael eu nodi o fewn Portffolio Addysg ac Ieuenctid ac eithrio ysgolion, ond nid oedd hyn yn cyfateb i arbediad o 7.5% a gofynnodd i’r Swyddogion egluro hyn. Cyfeiriodd hefyd at y sefyllfa derfynol 8 mis ar gyfer y flwyddyn ariannol hon, lle bu arbedion o £367,000 a gofynnodd sut yr oedd y swm hwn wedi cael ei ganfod oherwydd bod hyn yn fwy na’r arbedion arfaethedig ar gyfer cyllideb 2024/25.

Dywedodd y Prif Swyddog nad oedd cyfanswm yr arbedion effeithlonrwydd yn cyfateb i 7.5% o’r gyllideb gyffredinol ar gyfer y Portffolio ond fe esboniodd y gofynnwyd i bob Portffolio ganfod arbedion o hyd at 7.5% a bod hwn yn darged uchelgeisiol. Byddai unrhyw arbedion pellach uwchben y rhai hynny a nodwyd yn peryglu darpariaeth gwasanaethau statudol a gallu’r Cyngor i gyflawni ei swyddogaethau statudol.

O ran y £367,000 o arbedion a nodwyd yn ystod y flwyddyn, dywedodd y Prif Swyddog bod y swm hwn wedi deillio o foratoriwm ar leihau neu atal gwariant ym mhob Portffolio. Un o’r rhesymau dros yr arbedion hyn oedd y ddarpariaeth

addysg i blant 3 oed a blynyddoedd cynnar a niferoedd disgyblion yn is na'r disgwyl, a oedd yn adlewyrchu'r gostyngiad yng nghyfraddau geni yn ddiweddar. Dywedodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol bod y Cyngor wedi bod yn chwilio am ostyngiadau cyllidebol cylchol fel ffordd gynaliadwy o leihau gofynion cyllidebol ar gyfer y flwyddyn nesaf. Nid oedd y moratoriwm a'r tanwariant dros dro yn gylchol o ran eu natur ond rhoddwyd y rhain ar waith i gynorthwyo â gorwariant yn ystod y flwyddyn.

Gofynnodd y Cynghorydd Gladys Healey os oedd darpariaeth ariannol ar gyfer unrhyw ffoaduriaid a allai ymgartrefu yn y Sir. Dywedodd y Prif Swyddog bod darpariaeth ariannol ar gael hyd eithaf ei gwybodaeth. Roedd sawl teulu a oedd wedi ymgartrefu yn Sir y Fflint ac roedd darpariaeth addysg ar gael iddynt. Roedd hyn yn her i'r Awdurdod Lleol gan na fyddai'n cael ei hysbysu lawer ymlaen llaw o ran pryd y byddai'r Swyddfa Gartref yn eu cyfarwyddo i dderbyn teuluoedd a phlant i Sir y Fflint. Roedd proses strwythuredig ar waith i reoli hyn ac roedd y Cyngor yn gweithio'n agos gydag ysgolion a oedd wedi cael eu harddangos yn ddiweddar.

Gofynnodd y Cynghorydd Jason Shallcross a fyddai modd cael eglurhad pellach ynghylch y gostyngiadau i gyllideb y Gwasanaethau Ieuenctid o amgylch trosglwyddo ased rhai adeiladau. Roedd yn credu y byddai'r Cyngor yn mynd i gost flynyddol am rentu gofod yn ôl i ddefnyddio o fewn yr adeiladau yn y dyfodol. Eglurodd y Prif Swyddog mai'r her ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid oedd bod ganddo, dan ei reolaeth, nifer o adeiladau nad oedd yn cael eu defnyddio ar gyfer clybiau ieuenctid yn unig, ond gan sefydliadau eraill sy'n talu rhent o dan y Polisi Ffioedd a Thaliadau. Roedd hwn yn fodel drud. Roedd y Cyngor yn chwilio am rieni / grwpiau cymunedol priodol i feddiannu'r adeiladau fel trosglwyddiad ased a phe bai partneriaeth effeithiol yn cael ei datblygu, fe allai'r Gwasanaeth Ieuenctid rentu'r hyn roedd ei angen yn ôl i greu cyfleoedd ar gyfer arbedion a fyddai'n caniatáu ariannu mwy o weithwyr ieuenctid yn y gymuned i weithio gydag ysgolion a phobl ifanc i'w cefnogi.

Dywedodd y Prif Weithredwr, o'r ddau drosglwyddiad ased cyfredol, roedd y trosglwyddiad ym Mhenyffordd yn eithaf datblygedig, felly fe ddylai ddigwydd yn gynt a lleihau'r risg i'r Cyngor o ran cyrraedd y gostyngiad i'r gyllideb, fel y dangosir yn yr adroddiad.

<u>Cyllidebau Dirprwyedig Ysgolion</u>

Amlinellodd y Prif Swyddog y pwysau o ran costau ar gyfer Cyllidebau Dirprwyedig Ysgolion a oedd yn cynnwys pwysau sylweddol mewn perthynas â dyfarniadau cyflog ar gyfer athrawon a staff cefnogi, fel y manylwyd yn yr adroddiad. Cyfeiriwyd at y pwysau costau o amgylch rheoli'r cyfnod sylfaen, darpariaeth ysgol arbennig, y pwysau costau cynyddol ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim, Rhyddhad Ardrethi Trosiannol, lluosydd Ardrethi Annomestig a'r Ystafell Ddosbarth Symudol Arbenigol yn yr Ysgol Gynradd Arbenigol. Darparwyd crynodeb ar y gostyngiadau a'r addasiadau o fewn y Cyllidebau Dirprwyedig Ysgolion a oedd yn cynnwys gwybodaeth am y gostyngiadau mewn costau ynni, gostyngiad mewn niferoedd disgyblion a chostau'n ymwneud â pherfformiad o amgylch pensiynau. Eglurwyd, yn dilyn y cynnig i dynnu £3m o'r Cyllidebau Dirprwyedig Ysgolion, y byddai hyn dal yn gadael cynnydd o 3.5% i'w cyllidebau.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog bod y cynigion cyllideb wedi cael eu cyflwyno a'u trafod mewn cyfarfod gyda Phenaethiaid a Llywodraethwyr Ysgol a oedd yn deall pam yr oedd y penderfyniadau hyn yn cael eu gwneud.

Dywedodd y Cynghorydd Gladys Healey y gallai torri cyllidebau ysgolion o 3% arwain at ddiswyddiadau a gofynnodd a fyddai'r Cyngor yn cynorthwyo'n ariannol gyda chost diswyddiadau. Dywedodd Arweinydd y Cyngor nad oedd y Cyngor yn gyfrifol am gost diswyddiadau. Roedd y Cyngor yno i gynghori a chefnogi ysgolion a oedd efallai yn y sefyllfa anodd honno.

Dywedodd y Cynghorydd Dave Mackie nad oedd o blaid gostyngiad o 3% yng nghyllidebau ysgolion gan awgrymu y byddai gostyngiad o 3% yn narpariaeth addysg i ddisgyblion yn gosod y Cyngor islaw lefel isel dderbyniol. Dywedodd bod cyllidebau ysgolion wedi cael eu gostwng o 3% y llynedd a gofynnodd, os oedd y Cyngor yn ei ystyried yn dderbyniol i dorri 3% arall, pam nad oedd wedi cynyddu'r ffigwr hwn y llynedd. Dywedodd hefyd bod llawer iawn o dystiolaeth bod angen i ysgolion berfformio'n well, a bod arnynt angen cyllidebau gwell ac o edrych ar y canlyniadau PISA roedd hyn yn bryderus oherwydd bod Cymru ar y gwaelod ar draws y DU, ac roedd gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru yn dangos bod lefelau perfformiad Mathemateg, Darllen a Gwyddoniaeth yn is na'r hyn a nodwyd yn 2021.

O ran Balansau Ysgolion, dywedodd y Cynghorydd Mackie bod y cronfeydd wrth gefn wedi gostwng o £5m a oedd yn golygu bod ysgolion wedi gwario eu dyraniad cyllideb a £5m yn ychwanegol, nid oedd hyn yn wir am bob ysgol ond roedd yn dangos bod ysgolion eisoes yn gweithredu ar lefel isaf annerbyniol.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod rhoi pob ysgol yn yr un grŵp yn annidwyll ac yn annheg ar benaethiaid, athrawon a phobl ifanc a oedd yn gweithio'n galed i gynnal darpariaeth addysg er mwyn i bobl ifanc gael addysg o'r safon orau bosib'. Roedd yr Aelodau'n ymwybodol o'r problemau eleni gyda'r gyllideb, ac roedd wrthi'n gweithio ar ymateb gyda'r Prif Weithredwr a swyddogion cyllid eraill i Lywodraeth Cymru a fyddai'n gadarn ac yn gryf. Roedd ysgolion angen cyllideb fwy; roedd y Cyngor angen cyllideb fwy ac roedd Llywodraeth Cymru angen cyllideb fwy. Gofynnodd i'r Cynghorydd Mackie ble yn union yr oedd yn cynnig eu bod yn cael y cyllid ychwanegol ac a fyddai'r Cynghorydd Mackie yn argymell ychwanegu 3% arall at Dreth y Cyngor a neilltuo'r arian hwnnw ar gyfer ysgolion. Dywedodd nad oedd unrhyw un eisiau bod yn y sefyllfa hon, ond roedd gan ysgolion y dewis i wneud cais am ddiffyg trwyddedig, nid oedd hynny'n bosibl i'r Cyngor. Roedd yn rhaid i'r Cyngor osod cyllideb gytbwys.

Gofynnodd y Cynghorydd Parkhurst a fyddai'n bosib darparu esboniad o beth yn union oedd y cyllid o £1.124m o'r enw 'Cyllideb Ysgolion Nas Dyrannwyd' yn ymwneud ag o. Cytunwyd y byddai ymateb yn cael ei roi i'r Pwyllgor yn dilyn y cyfarfod.

Cafodd yr argymhellion, fel y'u hamlinellwyd yn yr adroddiad, eu cynnig gan y Cynghorydd Ted Palmer a'u heilio gan y Cynghorydd Carolyn Preece.

**<u>PENDERFYNWYD</u>:**

(a) Nodi dewisiadau'r portffolio Addysg ac Ieuenctid i leihau cyllidebau; a
(b) Nodi'r cynigion ar gyfer cyllidebau dirprwyedig ysgolion.

## 43 DEILLIANNAU DYSGWYR – CANLYNIADAU TGAU A LEFEL A 2022/23

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) yr adroddiad a oedd yn rhoi trosolwg o ganlyniadau TGAU a Lefel-A 2022/23. Nid oedd wedi bod yn bosibl i gymharu canlyniadau arholiadau gyda blynyddoedd blaenorol oherwydd yr arholiadau amrywiol a oedd wedi cael eu cynnal ers 2019. Darparwyd y wybodaeth ddiweddaraf am y trefniadau dros dro ar gyfer cyfnod allweddol 4 a chyfnod allweddol 5 ac fe eglurwyd, o ganlyniad i'r pandemig, y cafodd graddau eu cadarnhau gan ganolfannau am gyfnod ac fe wnaed addasiad i ffiniau graddau. Yn 2019, penderfynodd Llywodraeth Cymru na fyddai data perfformiad yn cael ei rannu ond dywedodd y gallai rhai prif ddangosyddion o ganlyniadau haf 2023 gael eu gwneud yn gyhoeddus ac roedd y wybodaeth hon wedi'i hamlinellu ym mhwynt 1.01 yr adroddiad. Cyfeiriwyd yr Aelodau at bwyntiau 1.05 a 1.06 yn yr adroddiad a oedd yn cynnwys manylion am ganlyniadau cenedlaethol ar gyfer cyfnod allweddol 4 yn ôl nodweddion disgyblion ar gyfer haf 2023, a chanlyniadau cyfnod allweddol 4 yn 2022/23 yn erbyn cyfartaledd Cymru. Yna, darparwyd gwybodaeth am y newidiadau arfaethedig ar gyfer dysgwyr Ôl-16 ac roedd pwynt 1.10 yr adroddiad yn amlinellu'r mesurau gwahanol a ddefnyddiwyd wrth fonitro perfformiad. Cyfeiriwyd yr Aelodau at Ganlyniadau Sir y Fflint a Chanlyniadau Cenedlaethol ym mhwynt 1.11, 1.12 ac 1.13 yn yr adroddiad ond amlygwyd nad oedd y data hwn yn cynnwys yr holl brosesau apeliadau a oedd wedi cael eu cynnal. Roedd gwybodaeth am y system addysg ALPS wedi'i chynnwys ym mhwynt 1.14 yr adroddiad.

Canmolodd y Cynghorydd Carolyn Preece y Portffolio Addysg ac Ieuenctid a'r holl ysgolion ar eu perfformiad yn dilyn Covid a chanmolodd yr ymdrech a'r gwaith a oedd wedi cael ei wneud. Dywedodd ei bod yn anodd i fesur gan nad oedd pawb wedi cyflawni'r un cymwysterau ac nid oedd modd eu mesur yn yr un ffordd. Roedd disgyblion yn perfformio'n dda ym maes llythrennedd, rhifedd a gwyddoniaeth a oedd yn galluogi iddynt symud ymlaen i addysg uwch.

Cytunodd yr Arweinydd gyda'r sylwadau a wnaed a diolchodd i'r ysgolion, yr athrawon, y rhieni, y llywodraethwyr a phawb a gyfrannodd am yr hyn a gyflawnwyd. Cytunodd gyda'r sylwadau a wnaed mewn perthynas â'r niwed a achoswyd i'r system addysg gan y pandemig a chredai mai'r plant ieuengaf oedd wedi colli fwyaf. Galwodd y Prif Swyddog ac yntau am gael plant iau i ddychwelyd i'r ysgol yn gyntaf ac fe gytunodd y cyn Weinidog Kirsty Williams. Roedd yn teimlo y byddai plant ifanc iawn wedi'u heffeithio gan hyn am weddill eu hamser ym myd addysg. Canmolodd y staff am eu gwaith caled i helpu plant i ddal i fyny a chyrraedd y cam y byddent wedi bod arno pe na bai'r pandemig wedi digwydd.

Cynigodd y Cadeirydd argymhelliad arall, ac fe eiliwyd yr argymhelliad hwnnw gan y Cynghorydd Carolyn Preece:-

- Bod y Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu at yr holl Benaethiaid Uwchradd i ddiolch iddynt am eu gwaith wrth gefnogi disgyblion yn ystod blwyddyn arholiadau.

Cafodd yr argymhelliad, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad, ei gynnig gan y Cynghorydd Gladys Healey a'i eilio gan y Cynghorydd Ted Palmer.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn nodi canlyniadau arholiadau cyfnodau allweddol 4 a 5 yn 2022/23 ac yn cydnabod gwaith caled ysgolion uwchradd yn Sir y Fflint wrth gefnogi eu disgyblion yn ystod blwyddyn arholiadau; a

(b) Bod y Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu at yr holl Benaethiaid Uwchradd i ddiolch iddynt am eu gwaith caled wrth gefnogi eu disgyblion yn ystod blwyddyn arholiadau.

## 44 ADOLYGU STRATEGAETH ÔL-16

Wrth gyflwyno'r adroddiad, dywedodd yr Ymgynghorydd ar gyfer Dysgu Ôl-16 ac Oedolion bod dau bwynt yr oedd yn dymuno tynnu sylw atynt. Y cyntaf o'r pwyntiau hynny oedd bod y dyddiad gweithredu ar gyfer y Comisiwn newydd wedi newid o 1 Ebrill i 1 Awst 2024. Roedd hyn yn dangos y newidiadau digynsail a oedd yn mynd rhagddynt o fewn y ddarpariaeth Ôl-16 a oedd yn effeithio ar bob sector a phob darparwr hyd at addysg uwch. Yn ail, roedd yn dymuno sicrhau'r aelodau bod y Cyngor yn rhan fawr o hysbysu a dylanwadu ar y datganiad o egwyddorion yn y Comisiwn Newydd a'i bod yn aelod o Bartneriaeth Dysgu Oedolion Cymru a oedd yn cynnal sesiynau briffio misol gyda Llywodraeth Cymru a Swyddogion yn benodol o ran Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil. Roedd y portffolio hefyd wedi'i gynrychioli ar y Grŵp Rhanbarthol 14 i 19 a oedd yn cyfarfod yn genedlaethol ac yn edrych yn benodol ar ariannu ar gyfer darpariaeth Ôl-16 a'r newidiadau a oedd yn cael eu cyflwyno o dan y cynigion newydd. Roedd y wybodaeth hon yn cael ei hadrodd yn ôl i'r chwe sir yn y Gogledd. Roedd Vicky Barlow, Uwch Reolwr Gwella Ysgolion, yn aelod o'r Bwrdd Sgiliau Rhanbarthol lle'r oedd prentisiaethau'n cael eu trafod gyda'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn chwarae rhan. O ran chweched dosbarth ysgolion, adroddwyd bod gwaith yn parhau gyda GwE i alluogi cyfleoedd i Benaethiaid ysgolion gyda chweched dosbarth gyfarfod Prif Weithredwr newydd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil i alluogi ysgolion i ddylanwadu'r datganiad o flaenoriaethau wrth symud ymlaen.

Dywedodd y Cynghorydd Carolyn Preece y gallai hyn fod yn welliant aruthrol gyda phawb yn gweithio fel un. Roedd wedi edrych ar aelodaeth y Comisiwn a oedd yn cynnwys athrawon proffesiynol lefel uchel a fyddai'n arwain yn y maes hwn. Roedd yn teimlo y byddai hyn yn dod â phawb ynghyd ac yn darparu llif drwy'r broses addysg ac y byddai hyn yn gam cadarnhaol ymlaen. Roedd yn edrych ymlaen at dderbyn adroddiadau ar hyn yn y dyfodol.

Cafodd yr argymhelliad, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad, ei gynnig gan y Cynghorydd Carolyn Preece a'i eilio gan y Cynghorydd Arnold Woolley.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi derbyn lefel briodol o sicrwydd o ran gwaith y Portffolio Addysg ac Ieuenctid wrth gefnogi ysgolion gyda darpariaeth chweched dosbarth i allu bodloni gofyniad y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil newydd.

45 **ADBORTH O ADOLYGIAD Y GWASANAETH CYFIAWNDER IEUENCTID**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Uwch Reolwr Cyfiawnder Ieuenctid a Sorted Sir y Fflint a oedd yn cynnwys y canfyddiadau o Adolygiad Cymheiriaid Cyfiawnder Ieuenctid a gwblhawyd gan y Bartneriaeth Gwella ‘r Sector Cyfiawnder Ieuenctid ym mis Hydref 2023. Nid oedd hwn yn archwiliad ond yn adolygiad gan gymheiriaid a ofynnwyd amdano a oedd yn rhan o raglen gwelliant parhaus y gwasanaeth. Cynhaliwyd trafodaethau gyda’r Prif Weithredwr a’r Prif Swyddog a oedd wedi nodi prif drywyddau ymchwilio gan edrych yn benodol ar gryfder trefniadau arwain a llywodraethu Bwrdd Rheoli Gweithredol y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a’r partneriaethau a oedd wedi’u cynrychioli ar y Bwrdd hwnnw.

Roedd y wybodaeth yr oedd y Bwrdd wedi’i chael o ansawdd da ac yn nodi bod y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn gwneud cynnydd ar ei flaenoriaethau a chynlluniau. Nodwyd hefyd y dylai rhai partneriaid allanol fod yn gyfrifol am rai o’r problemau strategol gyda rhai blaenoriaeth a gedwir gan yr Awdurdod Lleol. Roedd yr Adolygiad Cymheiriaid yn nodi ymrwymiad y gwasanaeth a’i Fwrdd Rheoli a Phartneriaid i ddull wedi’i lywio gan drawma a rhoi’r plentyn yn gyntaf a ganmolwyd yn yr adroddiad. Canmolwyd yr ymarferwyr am y ffordd greadigol yr oeddent yn ymgysylltu â phlant a phobl ifanc. Roedd rhai meysydd i’w gwella yn ymwneud â’r grŵp cyflawni a oedd o dan y Bwrdd Rheoli Cyfiawnder Ieuenctid a’r orddibyniaeth ar y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a’r Awdurdod Lleol i lywio rhai o’r cynlluniau gwella. Darparwyd gwybodaeth ynghylch yr argymhellion a’r ystyriaethau a wnaed mewn ymateb i arsylwadau’r Adolygiad Cymheiriaid a chynnydd y cynlluniau cyflawni a amlygwyd ym mhwyntiau 2.03 a 2.04 yn yr adroddiad.

Dywedodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) bod yr adroddiad yn darparu lefel o sicrwydd, ac roedd hwn wedi bod yn ymarfer defnyddiol i roi synnwyr o ble’r oedd y Gwasanaeth ac asesu ei gynlluniau ei hun ar gyfer gwella. Darparodd wybodaeth gefndir ynglŷn â sut yr oedd y gwasanaeth wedi symud i wasanaeth ar wahân ac roedd cael y Prif Weithredwr fel Cadeirydd y Bwrdd Rheoli Cyfiawnder Ieuenctid yn amlygu mor bwysig yr oedd hyn.

Mynegodd y Cynghorydd Gina Maddison ei llongyfarchiadau am adroddiad ardderchog.

Cafodd yr argymhelliad, sydd wedi’i nodi yn yr adroddiad, ei gynnig gan y Cynghorydd Arnold Woolley a’i eilio gan y Cynghorydd Dave Mackie.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn nodi’r argymhellion o’r Adolygiad Cymheiriaid.

46 **ADRODDIAD CANOL BLWYDDYN AR BERFFORMIAD CYNLLUN Y CYNGOR 2023-24**

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) yr adroddiad canol blwyddyn ar berfformiad gan ddweud bod diweddariadau rheolaidd yn cael eu darparu i'r pwyllgor ar gynnydd blaenoriaethau'r Cyngor yng Nghynllun y Cyngor ar gyfer 2023/24. Roedd hwn yn adroddiad yn seiliedig ar eithriadau ac yn canolbwyntio ar feysydd nad oedd yn cyrraedd eu targed ar hyn o bryd. Roedd pwynt 1.05 yn yr adroddiad yn datgan nad oedd unrhyw weithgareddau neu ddangosyddion perfformiad a oedd yn dangos statws COG coch ar gyfer y portffolio. Roedd llawer o waith dal yn cael ei wneud o ran cyflawni Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor.

Yn dilyn sawl cwestiwn gan y Cynghorydd Mackie, darparodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) ymatebion manwl i gwestiynau mewn perthynas â lefelau presenoldeb a'r Gwasanaeth Lles Addysg, plant a oedd yn cael trafferth ailymgysylltu â'r ysgol ar ôl y pandemig, penodi Gweithwyr Ymgysylltu a mabwysiadu'r Strategaeth Ddigidol mewn ysgolion.

Yr amcan cyffredinol oedd codi lefelau presenoldeb ac roedd y Prif Swyddog yn falch iawn o allu dweud bod lefelau presenoldeb yn gwella, a bod yr awdurdod yn y pedwerydd safle drwy Gymru ar hyn o bryd. Cadarnhawyd bod y sylw a ddisgrifiwyd yn yr adroddiad yn ymwneud â pha gamau gweithredu oedd eu hangen a pha gamau oedd yn cael eu cymryd i barhau i wella lefelau presenoldeb. Rhoddwyd gwybodaeth am ddatblygu prosesau gwell a mwy effeithiol mewn ysgolion gan sicrhau bod y Gwasanaeth Lles Addysg yn defnyddio'r data hwnnw i dargedu eu hymyriadau'n fwy effeithiol mewn ysgolion.

Eglurwyd bod y defnydd o'r Grant Ysgolion Bro a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru wedi galluogi gweithwyr ymgysylltu, a oedd yn gweithio gydag ysgolion a theuluoedd, i fynd i'r afael â'r materion craidd a oedd yn arwain at bobl ifanc yn peidio â mynychu'r ysgol neu'n cael trafferth cadw eu lle. Roedd hwn yn gam i gyflawni'r amcan cyffredinol o geisio lleihau gwaharddiadau.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Ted Palmer ynglŷn â phresenoldeb ysgol o ganlyniad i'r Pandemig, dywedodd y Prif Swyddog fod hwn yn fater cenedlaethol a bod y Tasglu Presenoldeb Cenedlaethol wedi cael ei greu gan y Gweinidog i fynd i'r afael â hyn. Rhoddwyd amlinelliad o'r partneriaid sy'n aelod o'r Tasglu hwn a mynychodd y Prif Swyddog y cyfarfod cyntaf yr wythnos cynt. Cytunodd y byddai'n dosbarthu dau adroddiad a baratowyd gan riant-elusennau ac a gyflwynwyd i'r cyfarfod hwnnw, ac fe dynnodd sylw at y newid yn agwedd y disgyblion a'r rhieni tuag at bresenoldeb. Esboniwyd bod yn rhaid i'r cwricwlwm fod yn briodol, yn gyffrous ac yn ddifyr er mwyn i blant fynychu'r ysgol. Eglurwyd sut yr oedd y cwricwlwm newydd yn canolbwyntio ar yr agweddau hyn.

Canmolodd y Cynghorydd Carolyn Preece waith y Swyddogion ar yr adroddiad a oedd yn dangos nad oedd unrhyw statws Coch a dywedodd bod y targedau perfformiad ar gyfer pob maes yn dangos bod statws Oren a Gwyrdd yn gyrraeddadwy.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Gladys Healey at lefelau presenoldeb a gofynnodd a fyddai lefelau addysgu gartref yn cynyddu a gofynnodd a fyddai'n bosib i'r Swyddog Addysgu Gartref fynychu cyfarfod y Pwyllgor i roi diweddariad ar gynnydd.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog eu bod, ar ôl y pandemig, wedi gweld cynnydd o ran nifer y rhieni a oedd yn dewis addysgu eu plant gartref. Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor y llynedd mewn perthynas â data addysg yn y cartref a sut yr oedd y Gwasanaeth Lles Addysg yn ymgymryd â'i swyddogaeth statudol i fonitro'r plant hyn o ran yr addysg a oedd yn cael ei darparu. Eglurwyd bod y portffolio yn cyflawni ei gyfrifoldebau statudol o ran monitro'r gofrestr gydag uwch-swyddog tîm yn aelod o'r Grŵp Cenedlaethol ar gyfer Addysg Ddewisol yn y Cartref. Eglurodd yr Hwylusydd bod adroddiad ar Bresenoldeb a Gwahardd wedi'i drefnu ar gyfer y cyfarfod ym mis Mai ac y byddai gwahoddiad i fynychu yn cael ei anfon i'r Swyddog Addysgu yn y Cartref.

Cynigiwyd argymhelliad ychwanegol fel a ganlyn:-

- Bod diolchiadau'r Pwyllgor yn cael eu mynegi i'r holl staff i ddiolch iddynt am eu gwaith caled i gyflawni'r targedau blaenoriaeth allweddol yn erbyn mesurau / dangosyddion perfformiad Cynllun y Cyngor 2023/24.

Cynigiodd y Cynghorydd Carolyn Preece yr argymhellion, sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad, ac yn cynnwys yr argymhelliad ychwanegol a nodwyd uchod, a chawsant eu heilio gan y Cynghorydd Gladys Healey.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r lefelau o gynnydd a hyder o ran cyflawni'r blaenoriaethau oedd yng Nghynllun y Cyngor 2023/28 i'w cyflawni o fewn 2023/24;

(b) Bod y Pwyllgor yn cefnogi perfformiad cyffredinol yn ôl mesurau / dangosyddion perfformiad Cynllun y Cyngor 2023/24;

(c) Bod y Pwyllgor wedi'i sicrhau drwy'r eglurhad a roddwyd ar gyfer y meysydd hynny sy'n tangyflawni; a

(d) Bod diolchiadau'r Pwyllgor yn cael eu mynegi i'r holl staff i ddiolch iddynt am eu gwaith caled i gyflawni'r targedau blaenoriaeth allweddol yn erbyn mesurau / dangosyddion perfformiad Cynllun y Cyngor 2023/24.

## 47. AELODAU O'R WASG YN BRESENNOL

Nid oedd unrhyw aelodau o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2.00pm a daeth i ben am 3.56pm)

…………………………

**Y Cadeirydd**